# PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED

Dydd Iau, 21 Chwefror 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
R.E. Evans and T.J. Jones

**Hefyd yn bresennol:**
Mr E. Lambert, Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
K. Gerard, Rheolwr Pensiwn
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol
B. Owen, Swyddog Buddsodiadau Pensiwn
M. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Laimann, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, 10.00 – 11.50 yb.**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Dai Thomas a Mr Randal Hemingway.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Math o Fuddiant |
|---|---|
| D.E. Williams | Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed |
| T.J. Jones | Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed |
| R. Evans | Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed |

## 3. COFNOFION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18FED MEDI 2018

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Medi 2018 yn gofnod cywir.**

## 4. MONITRO CYLLIDEB FEL YR OEDD AR 31AIN RHAGFYR 2018

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad Monitro Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol o ran blwyddyn ariannol 2018/19. Nodwyd bod y sefyllfa bresennol, ar 31 Rhagfyr 2018, yn rhagweld tanwariant o £2,815k o ran arian parod. O ran gwariant, roedd yr effaith net o'r buddion sy'n daladwy a throsglwyddiadau allan yn cynrychioli gorwariant o £258k yn bennaf oherwydd natur aflywodraethus cyfandaliadau a throsglwyddiadau o'r gronfa. Roedd tanwariant o ran treuliau rheolwyr o £37k. O ran incwm, roedd effaith net cyfraniadau, incwm buddsoddi a throsglwyddiadau i mewn yn cynrychioli tanwariant o £3m. Yn gyffredinol, rhagwelwyd cyfanswm gwariant o £86.7m a chyfanswm incwm o £89.5m sy'n cynrychioli sefyllfa llif arian cadarnhaol o £2.8m.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Monitro Cronfa Bensiwn Dyfed.**

## 5. CYLLIDEB CRONFA BENSIWN DYFED 2019 - 2020

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2019-20. Nodwyd bod y gwariant arian parod cysylltiedig ar gyfer 2019-20 wedi'i bennu ar £87.8m a'r incwm arian parod cysylltiedig wedi'i bennu ar £87.8m, gan arwain at gyllideb net o £0 a oedd yn rhoi hyblygrwydd i'r Gronfa ddefnyddio incwm buddsoddi ar sail gofynion llif arian.

O ran lefelau gwariant, nododd y Pwyllgor fod y buddion sydd i'w talu wedi cael eu hamcangyfrif i fod yn £79.5m a oedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnydd o 2.4% yn y pensiynau, ar sail Mynegai Prisiau Defnyddiwr mis Medi 2018, ynghyd ag effaith net o 2% ar gyfer aelodau newydd y pensiwn. Amcangyfrifwyd bod treuliau rheoli yn £5.6m, ac o blith hwn roedd £3m wedi cael ei glustnodi ar gyfer ffioedd rheolwyr buddsoddi. Nodwyd ymhellach fod cyfraniadau incwm wedi cael eu hamcangyfrif yn £72.1m a oedd yn cynnwys £52.8m gan y cyflogwr a £19.3m yn gyfraniadau gan y gweithwyr, a bod cyfraddau'r cyflogwyr ar sail prisiad 2016 a oedd yn cynnwys 2% ar gyfer codiadau cyflog yn 2019-20. Amcangyfrifwyd bod incwm buddsoddi yn £14m er mwyn cynnal cyllideb niwtral yn ariannol a sicrhau nad oedd y gronfa yn cadw arian dros ben y byddai modd ei fuddsoddi. Roedd y gyllideb gysylltiedig ar gyfer eitemau nad ydynt yn rhai arian parod wedi'i gosod ar £50m ar sail amcangyfrif yr enillion a'r colledion a gafwyd o ran portffolios rheolwyr unigol a gwerthiannau a phryniannau o fewn y portffolios eiddo.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr arian a reolir gan Columbia Threadneedle a Baillie Gifford wedi cael ei drosglwyddo i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ym mis Ionawr/Chwefror 2019. Dywedwyd bod yr ystadegau sy'n ymwneud â chostau Cronfa Bensiwn Dyfed i Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn rhannol seiliedig ar amcangyfrifon a byddai data mwy dibynadwy ar gael yn y flwyddyn ariannol nesaf. Byddai gwaith monitro'r gyllideb ynghylch y gronfa yn cael ei gyflawni yn chwarterol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2019-20.**

## 6. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 31AIN RHAGFYR 2018

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian Parod a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed. Nodwyd ar 31 Rhagfyr, 2018 fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw £8.7m o arian parod ar ran y Gronfa ar gyfer gofynion llif arian uniongyrchol i dalu pensiynau, cyfandaliadau a chostau rheoli buddsoddiadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Cysoni Arian Parod Cronfa Bensiwn Dyfed.**

## 7. ADRODDIAD TORRI AMODAU

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Torri Amodau, mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed, i'w ystyried. Nodwyd gan y Pwyllgor fod Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 yn pennu'r ddyletswydd gyfreithiol i riportio achosion o dorri'r gyfraith. Mae Côd Ymarfer Rhif 14, paragraffau 241 i 275, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ym mis Ebrill 2015, yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch riportio'r achosion hyn o dorri'r gyfraith. Cafodd Polisi Torri Amodau Cronfa Bensiwn Dyfed ei gymeradwyo gan Banel Cronfa Bensiwn Dyfed ym mis Mawrth 2016. O dan y polisi, roedd yn ofynnol i achosion o dorri'r gyfraith gael eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau os oes achos rhesymol i gredu'r canlynol:

- na chydymffurfir – neu na chydymffurfiwyd – â dyletswydd gyfreithiol sy'n berthnasol i'r gwaith o weinyddu'r cynllun;
- bod yr analluo i gydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr wrth iddo arfer unrhyw un o'i swyddogaethau.

Nododd y Pwyllgor fod nifer o achosion wedi bod ers y cyfarfod diwethaf lle nad oedd cyfraniadau gweithwyr/cyflogwr wedi'u derbyn ar amser. Ond, erbyn hyn, roedd yr holl gyfraniadau yn gyfredol ac nid oedd achos wedi'i gyfeirio at y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.**

## 8. COFRESTR RISG

Cafodd y Pwyllgor Gofrestr Risg, a oedd yn cynnwys yr holl risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed, i'w hystyried. Roedd y gofrestr, a gâi ei monitro a'i hadolygu yn rheolaidd, yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Manylion yr holl risgiau a nodwyd
- Asesiad o'r effaith bosibl, y tebygolrwydd a'r statws risg
- Y mesurau rheoli risg sydd ar waith
- Y swyddog cyfrifol
- Dyddiad targed (os yw'n berthnasol)

Byddai'r risgiau yn parhau i gael eu hadolygu'n chwarterol, a byddai unrhyw newidiadau yn cael eu dwyn at sylw'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Gofrestr Risg.**

## 9. YMGYNGHORIAD GAN Y WEINYDDIAETH TAI, CYMUNEDAU A LLYWODRAETH LEOL (MHCLG) AR GANLLAWIAU STATUDOL DRAFFT YNGHYLCH CYFUNO ASEDAU YN Y CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ymgynghoriad gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar ganllawiau statudol drafft ynghylch cyfuno asedau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac roedd nodyn gan Hymans Robertson LLP, ymgynghorwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru, ynghlwm wrth y ddogfen.

Nododd y Pwyllgor fod canllawiau statudol drafft yn cynnwys amod a fyddai'n disgwyl i aelodau'r gronfa wneud buddsoddiadau newydd o 2020 ymlaen. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai Cronfa Bensiwn Dyfed wedi gwneud y rhan fwyaf o'i buddsoddiadau erbyn 2020. Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor dynnu sylw at effaith negyddol bosibl y ddarpariaeth hon ar fuddsoddiadau mewn llythyr ymateb. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod angen cyflwyno ymatebion erbyn 28 Mawrth a byddai ymateb drafft yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor a byddai'r Cadeirydd yn cytuno arno erbyn canol mis Mawrth.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi ymgynghoriad y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r nodyn gan Hymans.**

**10. CYFLWYNIAD GAN YR AWDURDOD CYNNAL AR GERRIG MILLTIR A'R CYNNYDD O RAN PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

Rhoddodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch y cerrig milltir a'r cynnydd o ran Partneriaeth Pensiwn Cymru. Nododd y Pwyllgor fod y gwaith o gyflwyno a throsglwyddo asedau i ddau is-gronfa Ecwiti Byd-eang (£3.5bn) wedi'i gwblhau. Nodwyd bod y dangosyddion cychwynnol yn awgrymu bod y gwaith masnachu wedi mynd rhagddo fel y disgwylid a byddai dadansoddiad yn cymharu'r adroddiad cyn-masnachu â'r adroddiad ôl-masnachu yn cael ei ddarparu erbyn diwedd mis Mawrth 2019. Gallai dyddiad targed ar gyfer lansio Tranche 2 (Ecwitïau'r DU ac Ecwitïau Ewrop, oddeutu £700m) gael ei ohirio o bosibl i fis Ebrill 2019. O ran Tranche 3 (Incwm Sefydlog , oddeutu £3bn), dywedyd wrth y Pwyllgor nad oedd Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cytuno ar is-gronfeydd, gan ohirio o bosibl y lansiad tan fis Medi 2019. Roedd hyn gan fod cyfarfod y Cyd-bwyllgor Lywodraethu ym mis Ionawr 2019 wedi cael ei ganslo oherwydd materion yn ymwneud â'r tywydd. Yn gyffredinol, roedd yr ymarfer cyfuno yn gwneud cynnydd da.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y cyflwyniad.**

**11. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(b) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

**12. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**13. ADRODDIAD YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL RHAGFYR 2018**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 12 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2018.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2018.**

## 14. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 12 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2018 a oedd yn nodi dadansoddiad o berfformiad o ran lefel y gronfa gyfan a chan y rheolwr buddsoddi am y cyfnodau cyn i'r gronfa gychwyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2018.**

## 15. BENTHYCA GWARANNAU

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 12 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais ynghylch benthyca gwarannau ar gyfer buddsoddiadau Cronfa Bensiwn Dyfed mewn Partneriaeth Pensiwn Cymru. Roedd y cais yn cynnwys adroddiad Mercer ynghylch benthyca gwarannau a chynnig Northern Trust. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod mabwysiadu'r ateb masnachu arfaethedig yn amodol ar gael cymeradwyaeth gan bob un o 8 cronfa y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a byddai'r Pwyllgor yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn chwarterol os byddai'r ateb yn cael ei fabwysiadu. Cytunodd yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol â'r egwyddor o fenthyca gwarannau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r cais am fenthyca gwarannau, ar yr amod bod yr ateb masanachu yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac ond yn cael ei roi ar waith yn y lle cyntaf i Gronfa Tyfu Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**